



**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 27 Mehefin 2019 am 5.00 pm ym Siambr y Cyngor, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypany, CF40 2XX.

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-

Y Cyngorydd S Rees (Cadeirydd)

Y Cyngorydd G Caple Y Cyngorydd J Bonetto
Y Cyngorydd P Jarman Y Cyngorydd D Grehan
Y Cyngorydd G Hughes Y Cyngorydd J Williams
Y Cyngorydd S Powell Y Cyngorydd W Owen

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Jones, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd R Bevan

21 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Daeth ymddiheuriadau am absenoldeb gan Gyngorwyr y Fwrdeistref Sirol R. Yeo a D. Williams.

22 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P. Jarman ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas ag Eitem 11, Cais Rhif 18/1346/11 - Datblygiad preswyl arfaethedig 120 uned, gyda gwaith tirlunio a pheirianeg gysylltiedig, hen safle Ysgol Gyfun Blaengwawr, Club Street, Aberaman, Aberdâr, CF44 6TN. "Rydw i'n adnabod un o'r siaradwr cyhoeddus"
- Hefyd, gwnaeth Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees ddatganiad mewn perthynas ag Eitem 9 - Cais 18/1124 - Cloddio Echdynnu (Ôl-weithredol) (Derbyniwyd manylebau 20/02/19) Burger Express, 46 Heol Mynwent, Trecynon, Aberdâr. "Rydw i'n adnabod y siaradwr cyhoeddus ac wedi rhoi cyngor am y cais. Yn unol â Pharagraff 14(2) o'r Cod Ymddygiad, byddaf yn siarad ar yr eitem fel Aelod Lleol ac yna'n gadael y cyfarfod pan gaiff y mater ei drafod"

Dywedodd Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees wrth y pwyllgor na fyddai hi'n

cymryd rhan yn Eitem 11, Cais Rhif 18/1346/10 - Datblygiad preswyl arfaethedig 120 uned, gyda gwaith tirlunio a pheirianeg gysylltiedig, hen safle Ysgol Gyfun Blaengwawr, Club Street, Aberaman, Aberdâr, CF44 6TN. Mae hyn am fod ganddi farn gref am y cais ac yn teimlo na fyddai hi'n addas iddi gymryd rhan mewn trafodaeth ynglŷn â'r cais na bwrw pleidlais.

23 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu ar faterion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

24 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

PENDERFYNWYD nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion nhw.

25 COFNODION

PENDERFYNWYD cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019 yn rhai cywir.

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 279, cyfeiriodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu at eiriad Amod sy'n nodi na fydd gwaith yn dechrau ar y datblygiad nes i gynllun i ymdrin â theiars sydd wedi'u claddu ar y safle, sydd wedi'i gyflwyno a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol, gael ei gynnwys ar y caniatâd cynllunio.

26 NEWID I DREFN YR AGENDA

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

27 CAIS: 18/0313

Dwy uned Dosbarth A1 (manwerthu) arfaethedig, tair uned Dosbarth A3 (bwyd a diod), isadeiledd y priffyrdd, meysydd parcio, trefniadau gwasanaethu a gwaith cysylltiedig. Tir i'r dwyrain o Mill Street, Tonyrefail.

PENDERFYNWYD gohirio'r cais er mwyn cynnal ymweliad safle gan y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu i ystyried diogelwch y priffyrdd, yr effaith ar fwynderau lleol a'r perygl o ran llifogydd.

Yng ngoleuni'r penderfyniad uchod, dywedodd y Cadeirydd wrth y sawl a oedd yn bresennol er mwyn annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais yma y byddai rhaid iddyn nhw wneud cais i annerch y Pwyllgor eto pan fyddai'r mater yn cael ei drafod, pe hoffen nhw wneud hynny.

(**Nodwch:** Ar ôl datgan buddiant yn y cais uchod (Cofnod 22), gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees y Gadair a chymerodd yr Is-gadeirydd, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple, ei lle.)

(**Nodwch:** Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol D. Grehan y cyfarfod.)

Yn unol â Chofnod Rhif: 266 o Gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 9 Mai 2019, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democraidd a Chyfathrebu. Amlinellodd yr adroddiad ganlyniad yr ymweliad safle, a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2019 mewn perthynas â'r cais. Roedd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu wedi argymhell cymeradwyo'r cais yma.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch y Pwyllgor:

- Ms K. Endicott (Ymgeisydd)
- Ms L. Williams (Cefnogwr)
- Mr R. Matthews (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Ymgeisydd, Ms K. Endicott, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebydd.

Arferodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees ei hawl i annerch y Pwyllgor yn unol â phwynt 14(2) o'r Cod Ymddygiad. Nododd hi ei gwrthwynebiad cyn gadael y cyfarfod tra bod y cais yn cael ei drafod.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys dau lythyr hwyr; roedd y naill yn gasgliad o luniau a anfonwyd at y Cyngor gan drigolyn lleol, sy'n tynnu sylw at broblemau parcio yn yr eiddo, a'r llall yn gasgliad o luniau a anfonwyd i'r Cyngor gan yr ymgeisydd, sy'n dangos nifer o ffliwiau echdynnu mwy sy'n cael eu defnyddio yn yr ardal.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r cais uchod i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

(**Nodwch:** Doedd cynnig i wrthod y cais, yn erbyn argymhellion y swyddogion ar sail yr effaith negyddol posibl ar fwynderau gweledol a mwynderau cyfagos, ddim yn llwyddiannus)

Datblygiad preswyl arfaethedig 120 uned, gyda gwaith tirlunio a pheirianeg gysylltiedig, hen safle Ysgol Gyfun Blaengawr, Club Street, Aberaman, Aberdâr, CF44 6TN.

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor y siaradwyr cyhoeddus canlynol a gafodd bum munud yr un i annerch y Pwyllgor:

- Mr R. Thomas (Gwrthwynebydd)

- Mr D. Edwards (Gwrthwynebydd)
- Ms S. Watkins (Gwrthwynebydd)
- Mr C. Carey (Gwrthwynebydd)
- Mr M. Hussey (Gwrthwynebydd)
- Mr R. Griffiths (Gwrthwynebydd)
- Mr N. Jones (Gwrthwynebydd)
- Mr D Hamments (Gwrthwynebydd)
- Mr. C. Terry (Gwrthwynebydd)

Arferodd yr Asiant, Mr Powys Jones, yr hawl i ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y gwrthwynebwyr.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr P Collins, Mr R. Vardon, Mr G. Harvey a Ms S. Jones, a oedd wedi gwneud cais i annerch y Pwyllgor ynglŷn â'r cais, yn bresennol i wneud hynny, neu'n awyddus i wneud hynny.

Dywedodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu fod Arolwg Ordnans wedi'i gyflwyno fel llythyr 'hwyr'.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r cais, a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn flaenorol ar 9 Mai 2019, pan benderfynodd yr Aelodau ohirio'r penderfyniad er mwyn galluogi'r swyddogion i gydweithio â'r ymgeisydd er mwyn ystyried ail ffordd o lwyddo a chyfle am fynediad i ddwy lôn (Cofnod rhif 267).

Rhoddodd y Swyddog Priffyrdd fanylion am bedwar lleoliad posibl ar gyfer ail bwynt mynediad i'r datblygiad arfaethedig ac, yn dilyn trafodaeth hir ynghylch effaith y cais ar briffyrdd, penderfynodd yr Aelodau wrthod y cais, yn groes i argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu. Roedd yr Aelodau dal o'r farn nad oedd y mynediad unigol arfaethedig i'r safle drwy Club Street yn ddigon da a'i fod yn beryglus. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

(Nodwch: Roedd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, J. Williams ac W. Owen yn awyddus i gofnodi eu bod nhw wedi pleidleisio i wrthod y cais)

(Nodwch: Yn unol â Chofnod 22 doedd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S. Rees ddim yn bresennol yn y Siambr pan oedd y Pwyllgor yn trafod y mater yma ac yn dod i benderfyniad. Arhosodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G. Caple yn y Gadair')

30 CAIS: 18/1333

Caniatâd ôl-weithredol ar gyfer colomendy ar wahân. (Cyfeiriad diwygiedig wedi'i dderbyn 23/04/19) Tu cefn i 14 Arfryn Terrace, Tylorstown, Glynrhedynog.

(Nodwch: Ar ôl gadael y cyfarfod yn gynharach, dychwelodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Rees i'r Gadair)

(Nodwch: Ar y pwynt yma, gadawodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol W. Owen y cyfarfod.)

Yn unol â'r gweithdrefnau a gafodd eu mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Ms J. Waterhouse (Gwrthwynebydd). Cafodd hi bum munud i annerch yr Aelodau ynglŷn â'r cynnig uchod.

Nododd y Pwyllgor nad oedd Mr C. Edwards (Ymgeisydd), a oedd wedi gofyn i annerch yr Aelodau ar y cais, yn bresennol i wneud hynny.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Lewis, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan gynnig ei wrthwynebiadau i'r datblygiad arfaethedig.

Amlinellodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu gynnwys llythyr 'hwyr' a ddaeth i law gan drigolyn lleol o Arfryn Terrace a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Aeth y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu ymlaen i gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor. Yn dilyn trafodaeth, roedd yr Aelodau'n awyddus i wrthod y cais yn groes i argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a hynny gan eu bod o'r farn bod y datblygiad yn ormesol ac y byddai'n cael effaith sylweddol ar amwynderau a phreifatrwydd i drigolion. O ganlyniad i hynny, caiff y mater ei ohirio tan y cyfarfod priodol nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu fel bod modd derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, a gaiff ei lunio drwy ymgynghori â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ôl yr angen. Bydd yr adroddiad yn tynnu sylw at y cryfderau a'r gwendidau posibl sydd ynghlwm â gwneud penderfyniad yn groes i argymhelliad swyddog, neu unrhyw reswm arfaethedig neu reswm cynllunio dros wneud penderfyniad o'r fath. Caiff yr adroddiad yma ei ystyried cyn dod i benderfyniad ar y mater.

31 CAIS: 18/1378

Cyfleuster Parcio a Theithio â 30 o leoedd gan gynnwys mynedfa newydd i gerbydau, ffens ar ffin y safle a goleuadau stryd. (Diwygiwyd y disgrifiad 04/01/2019). Heol Aber-rhondda, y Porth.

Awgrymodd y Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y byddai'r Amod canlynol yn cael ei gynnwys fel Amod 5 pe byddai'r Aelodau'n penderfynu cymeradwyo'r cais:

"Caiff y datblygiad ei gyflawni yn unol â'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd. Caiff yr arwyddion a'r marciau parhaol sydd wedi'u nodi yn Adran 5 y Cynllun eu rhoi ar waith cyn i'r datblygiad ddechrau cael ei ddefnyddio a byddan nhw'n cael eu cadw yn yr un modd ar ôl hynny.

Rheswm: Er diogelwch y cyhoedd yn unol â Pholisi AW10, Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf."

PENDERFYNODD y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu'r Amod sydd wedi'i amlinellu uchod.

32 CAIS: 19/0437

Dymchwel yr ystafell ddosbarth un-llawr bresennol. Adeiladu estyniad ffrâm bren un-llawr, dwy ystafell ddosbarth a choridor cyswllt i'r ysgol bresennol. Ysgol Gynradd y Gelli, Heol Ystrad, y Pentre

PENDERFYNODD y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

33 CAIS: 18/0791/10

Caniatáu i'r fynedfa dros dro i Ffordd Liniaru'r Porth (Cyf 17/1118/10) ddod yn fynedfa barhaol i'r chwith mewn/i'r chwith allan yn unig. Archfarchnad Morrisons, Ffordd Pontypridd, Y Porth.

Cyflwynodd Rheolwr Materion Rheoli Datblygu y cais uchod a gafodd ei adrodd yn wreiddiol i'r Pwyllgor ar 8 Tachwedd, 2018. Yn y cyfarfod, penderfynodd yr Aelodau ohirio'r penderfyniad i gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu yn y dyfodol er mwyn galluogi'r Cyfarwyddwr a'r Asiant i ystyried pa mor ymarferol fyddai mynediad i'r chwith yn unig i gyfeiriad y de (Cofnod 126).

Trafododd yr Aelodau'r adroddiad pellach, sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer mynediad i'r chwith yn unig. Yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

34 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG

PENDERFYNODD yr Aelodau dderbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio mewn perthynas â'r Penderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a ddaeth i law, Cymeradwyaethau Penderfyniadau a Gwrthodiadau Dirprwyedig gyda rhesymau, Trosolwg o Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi Dirprwyedig ar gyfer y cyfnod 03.06.19 – 14.06.19.

Daeth y cyfarfod i ben am 6.50 pm

**Y Cynghorydd S Rees
Cadeirydd.**